

At Weinidogion Cymru,

### Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Gar yn 2016-2017.

|  |  |
|--|--|
| <p>Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol</p>   | <p>Mae'r tîm diogelwch ffyrdd yn gweithio gyda nifer o ysgolion ar hyd a lled y sir i annog digwyddiadau a gweithgareddau teithio llesol megis:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Cerdded i'r ysgol bob wythnos/mis;</li><li>- Ysgolion Iach ac Eco gyda thargedau'n cael eu gosod a'u cyrraedd;</li><li>- Kerbcraft, safonau beicio cenedlaethol, beicio mwy diogel ac ati;</li><li>- Mewn partneriaeth â Sustrans i gyflwyno'r rhaglen teithio llesol.</li></ul> <p>Mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori a digwyddiadau ynglŷn â llwybrau diogel mewn nifer o ysgolion/cymunedau i gael adborth ynghylch y gwelliannau a awgrymwyd ac i hyrwyddo teithiau llesol i'r trigolion.</li></ul> |
| <p>Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau</p> | <p>Mae'r tîm cynllunio yn ceisio cytundebau S106 i wella cysylltiadau teithio llesol a'r isadeiledd yn yr ardal a chynhelir trafodaethau yn ystod cyfarfodydd ffurfiol gydag adrannau perthnasol eraill.</p> <p>Cyllid i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd megis y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i ariannu rhannau W1 ac W4 o Lwybr Dyffryn Tywi.</p> <p>Caiff cronfa ddata blaenoriaethau diogelwch ffyrdd a throedffyrdd ei chynnal a'i chadw gan y Cyngor. Caiff</p>  |

|  |   |
|--|---|
|  | <p>hon ei phoblogi â cheisiadau gan drigolion lleol ac aelodau lleol. Rhoddir sgoriau ar gyfer y ceisiadau ar sail meini prawf megis data damweiniau, llif traffig/cerddwyr a chyfaint y traffig, gyda sylw manylach yn cael ei roi i'r 20 cais sydd ar y brig cyn eu llunio, o bosibl, ar sail y cyllid.</p> <p>Ceir adran ar y rhaglen gyfalaf sydd ar gyfer isadeiledd teithio llesol yn unig.</p>   |
| <p>Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol.</p> | <p>Cysylltiadau Beicio a Cherdded Sir Gaerfyrddin. Dyfarniad o £581,600 gan y Gronfa Trafnidiaeth Leol.</p> <p>Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau:<br/>Cwmaman - £212,265.03<br/>Roedd y gwaith yn cynnwys cyfleusterau storio beiciau newydd ar gyfer Ysgol y Bedol a chreu troedffordd newydd ar hyd Heol Ffoland.<br/>Hendy-gwyn ar Daf – £165,234.97<br/>Roedd y gwaith yn cynnwys llwybr drwy'r parc yn cysylltu'r ysgolion cynradd ac uwchradd.</p> <p>Loteri Fawr – Cymunedau Arfordirol ar gyfer gwaith ar lwybr Camlas Pen-bre: £290,000</p> |

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

|   |  |
|---|--|
| <p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti.</p> | <p>Felodrom Caerfyrddin: Cyllideb o £607,000 oddi wrth Chwaraeon Cymru, Cyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Cwrs Rasio Caeedig Pen-bre. Cyllideb arfaethedig o £500,000.</p> <p>Cysylltiadau Beicio a Cherdded Sir Gaerfyrddin. Dyfarniad o £900,000 oddi wrth y Gronfa Trafnidiaeth Leol.</p> <p>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau: Pontyberem – £250,000.</p> |
|---|--|

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

N/A

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a bydd ar gael hefyd fel copi caled o ofyn amdano, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Prif Weithredwr